



Llythrennedd ac Iaith  
9 i 12

# Ymchwiliadau Safle Trosedd

- Siarad ar gyfer Ysgrifennu



Learning  
through  
Landscapes

## Trosolwg

Mae'r gweithgaredd llythrennedd yma'n gyfle gwych i ddarparu bachyn ar gyfer rhywfaint o ysgrifennu. Bydd natur awyr agored ac ymarferol y wers yn galluogi disgyblion i drafod syniadau gyda'i gilydd cyn ysgrifennu.

## Adnoddau

- Tedi
- Tâp perygl
- Sialc
- Darnau rhydd
- Papur mawr/bwrdd gwyn a beiros

## Gweithgaredd

1. Cyn y wers, paratowch leoliad trosedd yn yr awyr agored e.e. tedi yn sownd i fyny coeden, tŷ wedi'i ddymchwel a pherchennog ar goll ac ati.
2. Briffiwch y disgyblion eu bod yn mynd i fod yn dditectifs yn dod ar draws digwyddiad.
3. Rhowch amser iddyn nhw edrych ar leoliad y drosedd a'r dystiolaeth o'u cwmpas.
4. Heriwch y disgyblion i ddyfeisio cadwyn o ddigwyddiadau a arweiniodd at y drosedd a rhannu eu syniadau gyda'u partner.
5. Rhannwch syniadau fel grŵp cyfan a thaflu syniadau ar ddarn mawr o bapur / bwrdd gwyn fel petaech mewn ystafell ddigwyddiadau yn swyddfa'r heddlu.

## Canlyniadau a Awgrymir ar gyfer Dysgu a Chwarae

Rydyn ni'n deall y byddwch chi, fel addysgwyr, yn teilwra'r gweithgaredd yma i anghenion dysgu eich disgyblion. Dyma rai o'r canlyniadau dysgu a'r gweithgareddau ymestyn y mae ymarferyddion eraill wedi defnyddio'r gweithgaredd yma ar gyfer eu cyrraedd:

- Creu lleoliad, cymeriadau a llinell stori testun ffuglen
- Strwythuro stori gyda dechrau, canol a diwedd.

Maes pwnc	Testun	Syniadau ar gyfer Archwilio Pellach
Llythrennedd ac Iaith	Ysgrifennu ffuglen	Ysgrifennu stori am yr hyn a ddigwyddodd
	Cwestiynau	Dyfeisio rhestr o gwestiynau ar gyfer y sawl sydd dan amheuaeth/tyst
Celf	Defnyddio deunyddiau naturiol	Defnyddio darnau rhydd i greu bwrdd stori o'r hyn sydd wedi digwydd, neu wneud proffiliau cymeriad Creu poster yn chwilio am y person sydd dan amheuaeth
Drama	Newid rôl	Chwarae rôl bod yn wahanol bobl sydd dan amheuaeth/tystion sy'n cael eu holi am y drosedd
Cyfrifiadura	Cyfryngau fideo	Esgus bod yn newyddiadurwr yn adrodd o leoliad y drosedd a recordio adroddiad newyddion
		Creu animeiddiad o'r gyfres o ddigwyddiadau

Os hoffech chi ddatblygu eich gwybodaeth a'ch sgiliau dysgu awyr agored, edrychwch ar ein hamrywiaeth ni o gyrсияu hyfforddi: [ltl.org.uk/outdoor-learning-training](http://ltl.org.uk/outdoor-learning-training)